CABINET

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS
DDYDD MERCHER, 29 MEDI 2021 AM 10.30AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff, Diogelwch y Cyhoedd a Strydoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), L. Phipps (Tai), J. Pritchard (Isadeiledd ac Eiddo), E. Stenner (Perfformiad, yr Economi a Menter), A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio a'r Fflyd) ac R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Ynghyd â:

D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – yr Economi a'r Amgylchedd), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151).

Hefyd yn Bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), L. Lucas (Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol), F. Wilkins (Rheolwr Gwasanaethau Tai), P. O'Neill (Uwch-reolwr y Gwasanaethau Ieuenctid), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgor/Chauffeur) ac E. Sullivan (Uwch-swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

RECORDIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Gwnaeth yr Arweinydd atgoffa'r rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw. Serch hynny, byddai recordiad ar gael ar ôl y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Weld. Esboniodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan C. Harrhy (Prif Weithredwr).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET – 15 MEDI 2021

PENDERFYNWYD y dylai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 gael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Cafodd y Cabinet gopi o Flaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn cynnwys yr adroddiadau a gynlluniwyd tan 24 Tachwedd 2021. Atgoffwyd Aelodau fod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio ac y gallai newid.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Drwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

5. STRATEGAETH DATBLYGU'R GWEITHLU 2021-24

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2021 a bod y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau wedi cefnogi'r Strategaeth yn unfrydol heb ei diwygio.

Yna ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021-24. Cafodd Strategaeth Drawsnewid Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd ei mabwysiadu gan y Cabinet ar 12 Mehefin 2021 ac, fel rhan o'r Strategaeth hon, roedd deg adolygiad corfforaethol yn cael ei gynnal a nodwyd bod Datblygu'r Gweithlu ymhlith yr adolygiadau hyn.

Cam gweithredu a oedd yn deillio o'r adolygiad hwn yw Strategaeth Datblygu'r Gweithlu ac mae'n ceisio cefnogi gweithwyr y Cyngor i gynyddu eu galluoedd, eu heffeithiolrwydd a'u gwydnwch i'r eithaf er mwyn helpu i addasu ac ail-lunio ein gwasanaethau mewn ymateb i'r heriau niferus a wynebir gan y Cyngor wrth symud ymlaen.

Nododd y Cabinet fod Undebau Llafur GMB, Unsain ac Unite wedi cefnogi'r Strategaeth.

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Pobl y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am sylwadau'r Pwyllgor Craffu a nododd fod y rhain yn canolbwyntio ar weithio ystwyth, dychwelyd i'r swyddfa, llesiant gan gynnwys iechyd meddwl, cymorth a hyfforddiant i'r rhai sy'n gweithio gartref, gwydnwch y gweithlu a chymorth i staff ag anableddau, am fod nifer y staff y cofnodir bod ganddynt anabledd yn isel.

Croesawodd y Cabinet y Strategaeth fel cam cadarnhaol i gefnogi asedau mwyaf gwerthfawr y Cyngor, h.y. ei staff.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, y dylid cymeradwyo Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021-24.

6. STRATEGAETH LLES GWEITHWYR 2021-24.

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2021 a bod y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau wedi cefnogi'r Strategaeth yn unfrydol heb ei diwygio.

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Strategaeth Lles Gweithwyr 2021-24. Cafodd Strategaeth Drawsnewid Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd ei mabwysiadu gan y Cabinet ar 12 Mehefin 2021 ac, fel rhan o'r Strategaeth hon, roedd deg adolygiad corfforaethol yn cael ei gynnal a nodwyd bod Datblygu'r Gweithlu ymhlith yr adolygiadau hyn.

Cam gweithredu a oedd yn deillio o'r adolygiad hwn yw'r Strategaeth Lles ac mae'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth: 'Cydweithio i gefnogi iechyd a lles ein gweithwyr yn llawn.' Mae'r Strategaeth yn atgyfnerthu'r ffaith bod ein pobl wrth wraidd popeth a wnawn ac y bydd ein llwyddiant parhaus fel Cyngor yn dibynnu ar hybu a hwyluso iechyd a lles da, er mwyn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau ardderchog i'n cymunedau.

Nododd y Cabinet fod Undebau Llafur GMB, Unsain ac Unite yn cefnogi'r strategaeth yn llawn.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl at sylwadau'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau wrth ystyried Strategaeth Datblygu'r Gweithlu mewn perthynas â chefnogi'r staff, yn enwedig o ran lles ac iechyd meddwl, materion a gaiff eu cydnabod ac yr ymdrinnir â nhw yn y Strategaeth Lles. Cyfeiriodd Aelodau at ystadegau absenoldeb salwch a cheisio eglurhad o ran y gwaith sy'n cael ei wneud i leihau lefelau absenoldeb. Ceisiodd y Pwyllgor Craffu eglurhad o ran straen y Gwaith/Cartref hefyd a sut y gwahaniaethir rhwng y rhain. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl y canfyddir hyn drwy wybodaeth a ddarperir gan y gweithwyr. Cyfeiriwyd at ganlyniadau'r Arolwg Staff a sut y byddai'r rhain yn cael eu defnyddio i olrhain cynnydd. Nododd y Cabinet, er nad oedd 25% o'r ymatebwyr yn teimlo bod y Cyngor yn symud i'r cyfeiriad cywir, roedd 75% o'r ymatebwyr o'r farn bod y Cyngor yn symud i'r cyfeiriad cywir sy'n swm sylweddol ac yn gadarnhaol. Roedd Aelodau yn teimlo y dylid gwneud gwaith pellach i ystyried unrhyw faterion sylfaenol. Nododd y Cabinet hefyd fod 84% o'r ymatebwyr yn teimlo bod ganddynt gydbwysedd da/da iawn rhwng bywyd a gwaith a bod hyn yn beth da i dynnu sylw ato. Croesawyd yr ymatebion cadarnhaol ar weithio ystwyth.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai fod data'r arolwg staff yn cael eu hystyried fesul Cyfarwyddiaeth er mwyn nodi unrhyw 'fannau problemus' posibl a chymharu â gweddill y Cyngor er mwyn darparu trosolwg gwell.

Cofnododd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol ei fod am ddiolch i Bennaeth Gwasanaethau Pobl a'i Thîm am eu holl waith caled i baratoi'r ddwy strategaeth yn ystod cyfnod hynod heriol. Diolchodd y Cabinet i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a chydnabod ymdrechion pawb dan sylw.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, y dylid cymeradwyo Strategaeth Lles Gweithwyr 2021-21.

7. TREFNIADAU CAU SWYDDFEYDD DROS Y NADOLIG 2021

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gau Swyddfeydd dros gyfnod y Nadolig.

Croesawodd y Cabinet yr adroddiad a'i argymhellion fel ffordd o gydnabod ymrwymiad eithriadol staff a fu'n gweithio mor galed yn ystod y pandemig.

Ceisiwyd eglurhad o ran sut y byddai'r staff nad ydynt yn defnyddio'r system clocio i mewn yn cael budd o'r 2 awr o gredyd. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl fod cyfle i staff nad yw eu rotas yn caniatáu'r credyd gael 2 awr o dâl yn lle'r credyd fel nad oeddent yn colli allan.

Roedd y Cabinet yn teimlo y byddai'r cynnydd yn nifer y dyddiau o wyliau blynyddol y gellid eu trosglwyddo i'r flwyddyn ganlynol eleni yn unig hefyd yn cefnogi'r staff hynny na fyddent yn gallu cymryd y diwrnod yn ystod y flwyddyn gwyliau blynyddol hon am resymau'n ymwneud â'r gwasanaeth.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD gwneud y canlynol am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

3.1.1. Cytuno i gau'r Swyddfeydd Corfforaethol ganol dydd ar Noswyl Nadolig a'u hailagor ar 4 Ionawr, 2022.

3.1.2. Cytuno i bob aelod o staff gael 2 awr o gredyd ar gyfer Noswyl Nadolig yn unol â'r trefniadau a nodir yn yr adroddiad.

3.1.3. Cytuno i bob aelod o staff gael diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol ar gyfer 2021.

3.1.4. Cytuno i gynyddu nifer y dyddiau o wyliau blynyddol y gall staff eu trosglwyddo i'r flwyddyn ganlynol i 6 diwrnod ar gyfer eleni yn unig.

8. ADRODDIAD ATODOL – RHEOLI RISG ADEILADAU A GWASANAETHAU AR LEFEL RHYBUDD SERO

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer ailagor gwasanaethau i'r cyhoedd.

Nododd y Cabinet y byddai pob adeilad yn amrywio o ran faint o le sydd ar gael, y lefelau staffio gofynnol, awyru, a'r gallu i hwyluso mynedfa ac allanfa ar wahân. O ganlyniad, bydd y risgiau sy'n gysylltiedig ag ailagor adeiladau sydd ar gau ar hyn o bryd yn amrywio yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau lleol. Mae adeiladau'r Cyngor ar gau i'r cyhoedd ar hyn o bryd ac mae pob un wedi bod yn destun asesiad risg unigol gan ddefnyddio'r templed cytunedig yn seiliedig ar fframwaith hierarchaeth rheoli a nodir yng nghanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru.

Croesawodd y Cabinet y dull pwyllog hwn o ailagor gwasanaethau, gan ddiogelu pob agwedd i'r staff a'r cyhoedd wrth i'r pandemig ddod i ben. Nodwyd bod y sefyllfa bresennol o ran cyfradd ddigwydded achosion yn llawer uwch na'r adeg hon y llynedd, sy'n dangos bod angen rhoi mesurau diogelu priodol ar waith. Nododd y Cabinet fod y cyhoedd wedi defnyddio amrywiaeth o wasanaethau mewn ffyrdd gwahanol yn ystod y pandemig, ac y byddai'r rhain yn parhau i fod ar gael.

Cadarnhaodd Swyddogion fod y gyfradd heintio yn 16.7% ar hyn o bryd, sef 840 fesul 100,000. Mae hyn yn amlwg yn dangos bod y feirws yma o hyd a'i bod felly'n hollbwysig ein bod yn mynd ati i ailagor adeiladau mewn modd synhwyrol a diogel er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a'r staff. Nodwyd, yn seiliedig ar waith modelu data, ein bod wedi cyrraedd brig yr heintiadau a'r gobaith yw y byddai'r cyfraddau yn gostwng dros yr wythnosau nesaf, ond mae perygl o hyd.

Cytunodd y Cabinet mor bwysig yw bod yn bwyllog a theimlai y byddai'r manylion yn y templedi

yn hanfodol wrth i ni symud ymlaen ac fe'i sicrhawyd y byddai adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno wrth i drefniadau fynd rhagddynt.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD gwneud y canlynol am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1) Cytuno i ailagor safle'r Cyngor a nodir yn 5.6 yn unol â'r templedi a'r rheolaethau a argymhellir yn Atodiad 1.

2) Cytuno i gadw safle'r Cyngor a nodir yn 5.7 ar gau yn unol â'r templedi a nodir yn Atodiad 2.

3) Cytuno i ailgyflwyno darpariaeth Cwsmeriaid yn Gyntaf a'r Dderbynfa yn Nhŷ Penallta o 4 Hydref 2021, yn unol â'r templed a'r rheolaethau a argymhellir yn Atodiad 3.

4) Cytuno ar yr argymhellion a'r amserlenni ar gyfer ailagor a nodir yn 5.11 ar gyfer y Swyddfeydd Cwsmeriaid yn Gyntaf sy'n weddill yn unol â'r templedi a nodir yn Atodiad 4.

5) Y Cabinet i gael adroddiadau parhaus dros y misoedd nesaf sy'n amlinellu unrhyw newidiadau pellach y bydd angen eu gwneud pe bai'r canllawiau neu lefel y risg yn newid eto

9. CAIS AM GYLLID I WNEUD GWAITH I'R AFON YN MONTCLAIRE AVENUE

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynigion i fynd i'r afael â gwaith sgwrio sylweddol a chynheiliaid a gollwyd ar lan yr afon yn union y tu ôl i eiddo preswyl ar hyd Montclaire Avenue, Coed-duon.

Nododd y Cabinet er mai'r Cyngor oedd yn berchen ar yr eiddo hyn yn hanesyddol, roedd pob un heblaw dau bellach wedi cael eu gwerthu i berchenogion preifat. Er bod yr eiddo wedi cael eu gwerthu, dewisodd Cyngor Caerffili gadw perchnogaeth dros lannau'r afon a'r cyfrifoldeb dros y cwrs dŵr, gan gynnwys glannau'r afon hyd at derfynau'r eiddo preifat. Mae'r cynllun yn cynnwys cefnfuriau a strwythurau wedi'u camlesu a'u cwlferu i gludo llif yr afon er mwyn lliniaru unrhyw ddifrod i'r cwrs dŵr a gerddi cefn yr eiddo cyfagos yn y dyfodol.

Nodwyd bod cyfraniad posibl o £65,000 tuag at y cynllun gan y perchennog tir preifat wedi cael ei gynnig ar lafar a, phe bai'r Cabinet yn penderfynu cymeradwyo'r cynllun, câi rhagor o negodiadau eu cynnal o ran yr atebolrwydd a fyddai'n gysylltiedig â derbyn y cyfraniad hwn.

Pwysleisiodd y Swyddogion fod y mater hirsefydledig hwn yn sensitif o ran amser a chadarnhaodd y Swyddog Monitro, o ganlyniad i hyn a'r cytundeb â'r Maer, y byddai'r mater hwn yn cael ei drin fel un brys ac felly ni fyddai'r penderfyniad yn destun gweithdrefnau galw i mewn ond, yn hytrach, byddai'n cael ei ychwanegu at agenda cyfarfod nesaf y Cyngor i'w nodi.

Ceisiwyd eglurhad o ran a ellid cyfiawnhau argymhelliad ychwanegol mewn perthynas â'r negodiadau â'r perchennog tir preifat, er mwyn dirprwyo pwerau i'r Swyddogion gynnal negodiadau o'r fath. Nid oedd y Swyddog Monitro yn credu bod angen gwneud hyn, ar yr amod bod y Cabinet yn fodlon y byddai'r Swyddogion yn bwrw ymlaen gyda'r cynigion ac unrhyw negodiadau heb adroddiad pellach i'r Cabinet.

Croesawodd y Cabinet y cynllun arfaethedig a fyddai'n datrys problem hirsefydledig i drigolion

ac aelodau'r ward leol a chytunwyd nad odd angen argymhelliad ychwanegol.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid diwygio'r argymhelliad yn 3.1 yn yr adroddiad er mwyn nodi y byddai gwerth £1,500,019 o gyllid yn cael ei ddarparu o'r Cyfrif Refeniw Tai i gyflawni'r cynllun yn Montclaire Avenue.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad, yn amodol ar wneud y diwygiad uchod iddo. Drwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, y dylid darparu gwerth £1,500,019 o gyllid o'r Cyfrif Refeniw Tai i gyflawni'r cynllun yn Montclaire Avenue.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir, yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021.

_____

CADEIRYDD